Cenn@d

MAWRTH 30 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 57

‘Ni wnaeth ddim drwg i mi’ – Deddf Newydd yn Gwahardd Cosbi Plant yn Gorfforol

Ar 21 Mawrth 2022, ar ôl ymgyrch hir, ymunodd Cymru â 60 o wledydd i wneud pob math o gosb gorfforol i blant, fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd, yn anghyfreithlon. Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 yn sicrhau’r un amddiffyniad rhag cosb gorfforol i blant ag sydd gan oedolion eisoes. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn nodi’n glir fod gan blant yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, anaf a cham-drin, ac mae hyn yn cynnwys cosb gorfforol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers tro i hyrwyddo hawliau plant ac efallai y bydd rhai pobl, ac yn sicr llawer o blant, yn synnu nad oedd ganddynt amddiffyniad cyfreithiol i fod yn rhydd o bob math o drais corfforol cyn hyn.

Pan oeddwn i’n blentyn, roedd y gansen yn fygythiad cyffredin mewn ysgolion ac roedd cosb gorfforol yn arferol mewn llawer o gartrefi. Mae rhai’n dweud: “Ni wnaeth unrhyw niwed i mi erioed” neu “Roedd plant yn ymddwyn yn llawer gwell bryd hynny oherwydd hyn”. Ystyriwch: fel oedolion, rydym yn mynnu’r hawl i fod yn rhydd o drais, ac nid ydym yn derbyn trais fel ffordd dderbyniol o ddelio ag anghytundeb. Rydym yn dweud wrth blant nad yw’n dderbyniol iddynt daro na chicio’i gilydd ac y dylent ddatrys anghydfod mewn modd arall. Mae hi’n neges ddryslyd ac anghyson i blant os ydynt, ochr yn ochr â’r geiriau hyn, yn derbyn cosb gorfforol er mwyn dysgu gwersi iddynt. Mae cosbi plant yn gorfforol mewn ysgolion wedi bod yn anghyfreithlon ers dros 20 mlynedd ond roedd y cymal ‘amddiffyniad cosb resymol’ wedi gadael man aneglur, gan ganiatáu i rieni gyfiawnhau cosbi’n gorfforol. O’r diwedd, mae’n glir yng Nghymru fod y gyfraith yn amddiffyn plant rhag trais corfforol yn yr un modd ag oedolion.

Rwyf newydd dreulio rhai dyddiau yng nghwmni dau o’m hwyrion bach ac fe’m hatgoffwyd faint o ymyriadau corfforol sy’n angenrheidiol bob dydd i gadw plant bach yn ddiogel, i’w hatal rhag anafu eu hunain neu eraill, a’u helpu i ddatblygu a dysgu. Cwtshys, golchi a gwisgo, eu hatal rhag rhedeg i’r lôn, stopio nhw gyffwrdd â rhywbeth poeth ac ati – nid yw’r ddeddfwriaeth yn atal hyn o gwbl, dim ond rhoi terfyn ar gosb gorfforol. Yn sicr, nid yw’r ffaith fod cosb gorfforol yn anghyfreithlon yn golygu bod disgyblu plentyn yn anghyfreithlon – i’r gwrthwyneb yn llwyr. Yn y cyfnod cyn i’r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae wedi bod yn dda gweld yr ymgyrch sy’n trafod ac yn dangos llawer o ddulliau rhianta positif, disgyblu cadarnhaol ac yn cynnig ffynonellau cymorth. Does dim dwywaith nad yw magu plant yn gallu bod yn heriol iawn ar brydiau ac mae’r wefan Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn parhau i gynnig llawer o gymorth ar gyfer magu plant o bob oed.

Rwy’n tybio y gofynnwyd i mi ysgrifennu’r erthygl hon oherwydd fy rôl fel Swyddog Diogelu’r Panel Diogelu Cydenwadol. Yn anffodus, rwyf yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae plant yn cael eu brifo neu eu cam-drin, a hynny efallai wedi dechrau, neu wedi’i gyfiawnhau, fel ffordd o ddisgyblu. Yr wyf hefyd yn ymwybodol o ddatgeliadau o drais a ddigwyddodd flynyddoedd lawer yn ôl. Mae’r clwyfau emosiynol yn parhau ymhell ar ôl i greithiau corfforol diflannu; mae’r ymddiriedaeth wedi’i thorri a pherthnasoedd wedi’u niweidio am byth.

Efallai y bydd rhai’n dal i ddweud, ‘Wnaeth smacio ddim drwg i mi’, ond mewn cymdeithas fodern yn 2022 mae’r eglurder cyfreithiol hwn yn angenrheidiol i warchod pawb ac i ddatgan yn glir ei bod hi’n annerbyniol i ddefnyddio cosb gorfforol yn erbyn oedolion, oedolion bregus ac, o’r diwedd, yn erbyn plant hefyd.

Julie Edwards
Swyddog Diogelu a Hyfforddiant
Y Panel Diogelu Cydenwadol

Hadau Gobaith – apêl EBC
Tudalen 2

Deled dy Deyrnas
Tudalen 4

Rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd
Tudalen 5

Hadau Gobaith – apêl EBC

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, mae tlodi byd-eang ar gynnydd. Oherwydd cyfuniad o Covid, gwrthdaro a'r argyfwng hinsawdd – trindod ansanctaidd, os bu un erioed – mae mwy a mwy o bobl yn cael eu gwthio i dlodi sydd yn gwneud goroesi yn anodd ac, i nifer cynyddol, yn amhosibl. Ond trwy sefyll mewn undod gyda chymunedau tlotaf ein byd, fe allwn blannu hadau gobaith yn y tir sych.

Mae pentrefi gogledd Kenya ymhlith y cymunedau tlotaf hynny. Mewn rhanbarth na fu erioed yn hawdd cynnal bywyd ynddo, mae'r argyfwng hinsawdd wedi ei gwneud yn llawer anos. Mae'r cyfnod sych yn hirach a'r glaw yn drymach. Mae tyfu cnydau mewn amgylchedd fel hyn – lle mae sychder hir yn cael ei ddilyn gan lifogydd dinistriol – yn ormod o her erbyn hyn.

Dyna pam y bu raid i Safia Galgallo a'i theulu adael eu cartref a theithio i ardal y credent y byddai'n haws iddynt gynnal eu hunain ynddi. Ond buan y bu raid iddynt wynebu un arall o heriau'r argyfwng hinsawdd: gwrthdaro dros adnoddau. Mae'r sefyllfa mor ddrwg erbyn hyn nes bod nifer yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond troi at drais er mwyn sicrhau digon o borfa a dŵr ar gyfer eu da byw.

Cynyddodd y trais yn ei phentref newydd i'r graddau na theimlai Safia'n ddiogel yno mwyach, a dyma benderfynu hel ei phac a symud unwaith eto.

Yn ei phentref newydd, fodd bynnag, llwyddodd i sefydlu busnes bach iddi ei hun, a gyda help y grŵp merched lleol, mae'r busnes magu dofednod bellach yn ffynnu. Cafodd fenthyciad ariannol gan y grŵp – sy'n cael cefnogaeth gan bartner Cymorth Cristnogol – a ganiataodd iddi brynu mwy o gywion ac adeiladu cwt ieir mwy. Bellach, mae ganddi dros 500 o gywion a thri chwt. Mae'r busnes yn ffynnu; mae bywyd yn haws.

Yn wahanol i ferched eraill yng ngogledd Kenya, nid hadau go iawn sydd wedi rhoi gobaith i Safia. Yn hytrach, hadau cefnogaeth, ffydd, dyfalbarhad a chydweithio sydd wedi eu hychwanegu at ei phenderfyniad hi i lwyddo: hadau dygnwch a gallu'r gymuned leol, hadau arbenigedd y partner lleol. Ychwanegwch at hynny hadau undod cefnogwyr

Cymorth Cristnogol yng Nghymru ac ar draws Ynysoedd Prydain, ac fe welwch chi gymunedau sy'n addasu i heriau'r argyfwng hinsawdd.

Mae 'addasu' yn air pwysig yn y frwydr yn erbyn effeithiau hinsawdd sydd yn newid. Mae hynny'n wir yma yng Nghymru, lle mae asiantaethau fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu'n galed i atal llifogydd rhag dinistrio cartrefi mewn sawl ardal. Yn hyn o beth mae Cymru a Kenya yn ddigon tebyg. Does yr un ohonom ni'n gallu dianc rhag yr argyfwng.

Y gwahaniaeth, wrth gwrs, ydi bod Cymru yn wlad llawer mwy cyfoethog na Kenya. Tra bo adnoddau ar gael yma yng ngwledydd Prydain i addasu, mae Kenya yn ei chael hi'n anodd iawn buddsoddi yn yr un modd. Dyna pam y mae Apêl Hadau Gobaith mor bwysig. Rhydd gyfle i ni yng Nghymru i sefyll mewn undod gyda Kenya a chyfrannu tuag at waith partneriaid Cymorth Cristnogol.

Wrth gyfrannu, byddwn yn hau hadau hollbwysig. A thrwy ychwanegu ei dygnwch ei hun i'r fenter, gall Safia fedi cynhaeaf gobeithiol iddi hi ei hun, ei theulu a'i chymuned.

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron, 2022: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 7.00y.h. nos Lun, 4 Ebrill, yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes yr Eisteddfod eleni.

A'r Eisteddfod wedi'i gohirio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn Nhregaron rhwng 30 Gorffennaf a 6 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned sylweddol yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.

Datganiad Undeb Bedyddwyr Cymru ar Wcráin

‘Mae Cyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru yn arswydo at ymosodiad Rwsia ar drigolion Wcráin. Gwerthfawrogwn fod NATO wedi ymatal rhag codi arfau milwrol yn erbyn byddin Rwsia, a defnyddio dulliau di-drais i ddangos eu dicter a’u gwrthwynebiad chwyrn yn erbyn y rhyfel.

‘Galwn ar Rwsia i adael Wcráin ar unwaith, drwy ysgrifennu at Lysgennad Rwsia a llongyfarch pob ymdrech o Gymru a thu hwnt i estyn pob cefnogaeth ddyngarol bosibl i’r ffoaduriaid sydd wedi gadael Wcráin, ynghyd ag estyn meddygaeth a bwyd i ddioddefwyr y wlad.

‘Dylai’r Deyrnas Unedig sicrhau ffordd syml, ddirwystr, i drigolion Wcráin sydd am loches yn ein plith, a hefyd gyfrannu at sefydlu llochesi safonol yn y gwledydd cyfagos i Wcráin.

‘Anogwn eglwysi ein hundeb i weddïo am heddwch ac i drefnu casgliadau ariannol i’w hanfon, drwy law naill ai DEC neu’r BMS, ar fyrder i uniaethu ein hunain â’r sawl sydd wedi dioddef yn dilyn yr ymosodiad milwrol hwn.’

Derbyniwyd y Datganiad hwn gan Gyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru ar 23 Mawrth 2022. Mae’r Cyngor Unedig yn gorff cynrychioladol ar gyfer Cymanfaoedd ac Eglwysi Bedyddiedig ar draws Cymru, ac fe’i hanfonir at Lywodraethau Prydain a Chymru.

Cenhadu trwy’r adeiladau yn Llangefni

Mae Ieuan Wyn Jones yn adnabyddus fel cyn-Ddirprwy Brif Weinidog Cymru tan 2011, ond llai adnabyddus yw ei weithgarwch ef a chriw o bobl leol eraill yn ardal Llangefni gyda chapeli’r dre – yn agor cwys newydd i’w dyfodol.

Ieuan Wyn Jones

‘Roedd pump o gapeli anghydffurfiol yma yn Llangefni yn draddodiadol,’ meddai Ieuan, ‘ond, fel mewn sawl rhan o Gymru, edwino’n raddol oedd yr hanes.’ Pan gaeodd Capel Ebeneser y Wesleaid ryw ddeng mlynedd yn ôl, fe dechreuodd ef a nifer o bobl eraill yr ardal feddwl am y dyfodol. Roedden nhw’n gallu gweld y ffordd roedd pethau’n mynd, a’r perygl y byddai’r capeli i gyd yn cau o un i un, o barhau ar y trywydd presennol. ‘Ac at hynny, roedd hi wedi dod yn sefyllfa weddol druenus o ystyried bod yr adeiladau hyn wedi’u codi ar gyfer gweithgarwch gydol yr wythnos, ond eu bod nhw bellach yn cael eu defnyddio am ryw ddwyawr yn unig ar y Sul,’ ychwanega.

Capel Moreia

Roedd y Bedyddwyr a’r Annibynwyr yn y dref yn cydaddoli ers rhai blynyddoedd, ac yna agorwyd trafodaethau ag enwadau eraill. Roedden nhw am estyn allan – roedd cymaint o grwpiau anghenus yn y dref ac o uno byddai cyfle i wneud rhywbeth newydd a gwneud yr eglwys yn fwy perthnasol i’r gymuned. O ystyried adeiladau’r gwahanol gapeli, a hyd yn oed ystyried adeilad newydd, penderfynwyd mai safle Capel Moreia’r Presbyteriaid oedd fwyaf addas i’w addasu at anghenion cymunedol.

Bu ymgyrch i godi arian ac o dipyn i beth daeth yr incwm angenrheidiol o sawl cyfeiriad, gan gynnwys gwerthu adeilad Capel Penuel, y Bedyddwyr. A nawr yng ngwanwyn 2022 mae’r gwaith o newid adeilad Moreia i fod yn ganolfan amlddefnydd – Canolfan Glanhwfa – yn mynd rhagddo.

‘Mae gyda ni dri phartner eisioes sydd am ddefnyddio’r adeilad yn ystod yr wythnos,’ esbonia Ieuan. ‘Age Cymru (Gwynedd a Môn), fydd yn rhedeg canolfan dydd i bobl hŷn; Bwyd Da Môn, sydd am redeg clwb cinio yn darparu bwyd ffres i bobl ar incwm isel a gwersi coginio; ac yna Tŷ Cana, fydd yn defnyddio’r gofod ar gyfer gwaith cerddorol gyda phobl ifanc. Felly bydd yna weithgarwch parhaus yma!’

Ond mae’n awyddus i esbonio bod yr eglwysi’n frwd i sicrhau nad canolfan gymunedol yn unig fydd hon: ‘Mae’r ochr genhadol yn bwysig iawn i ni. Bydd Canolfan Glanhwfa yn gwasanaethu’r gymuned ond ’dan ni fel eglwys eisiau i’r adeilad yma ar ei newydd wedd fod yn fodd o bontio rhwng y capel a’r gymuned mewn ffordd doedd yr hen adeiladau ddim yn caniatáu. Mae gynnon ni eisoes wasanaeth i blant ryw unwaith y mis sydd yn fwy anffurfiol, a ’dan ni wedi gweld ffrwyth o hynny. Y gobaith yw y bydd hyn yn agor ffordd newydd, arloesol a gwahanol i ni fel eglwysi anghydffurfiol yn ein cymunedau.’

Deled dy Deyrnas

Mae'n bur debyg nad oes unrhyw ran o'r Beibl yn cael ei hadrodd yn amlach na'r geiriau a roddodd Iesu i'w ddisgyblion fel gweddi.

Mae'r weddi'n dechrau gyda geiriau sy'n fynegiant o ddyhead am weld enw Duw yn cael ei ogoneddu. Yna, fe gawn eiriau sy'n dymuno gweld teyrnas Dduw yn cael lle anrhydeddus yn ein plith. Y cwbl rwy'n ceisio'i wneud yn yr erthygl hon yw tynnu sylw at ba mor aml mae Iesu'n cyfeirio at y ffaith fod yna deyrnas i'w sefydlu. Mae bron i ddeugain o emynau yn *Caneuon Ffydd* sy'n tynnu sylw at hyn.

Pan ddaeth Ioan Fedyddiwr i gyhoeddi ei neges, ei brif genadwri oedd fod teyrnas nefoedd wedi dod yn agos. Pan ddechreuodd Iesu ar ei weinidogaeth yng Ngalilea, ei neges yntau oedd fod teyrnas nefoedd wedi dod yn agos.

Mae Mathew yn disgrifio teithiau cynnar Iesu yng Ngalilea, ac yn dweud ei fod yn dysgu yn y synagogau gan gyhoeddi'r newyddion da am y deyrnas. Wrth ddysgu'r rhai oedd yn ei ddilyn (y disgyblion yn bennaf) â'r geiriau sy'n disgrifio gwynfyd dilynwyr cywir, mae Iesu'n eu disgrifio fel rhai sy'n mynd i fod yn rhan o deyrnas nefoedd.

Yn y rhan o'r bregeth ar y mynydd lle mae Iesu'n cyfeirio at werth y gyfraith a geiriau'r proffwydi fe gawn y geiriau hyn: 'Pwy bynnag a'i ceidw [geiriau'r Gyfraith] ac a'i dysg i eraill, geilw hwnnw'n fawr yn nheyrnas nefoedd. Rwy'n dweud wrthych, oni fydd eich cyfiawnder chwi yn rhagori llawer ar eiddo'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch byth i mewn i deyrnas nefoedd.' (Mathew 5:19b–20)

Pan mae Iesu'n rhybuddio'i ddilynwyr rhag pryderu a gofidio am fwyd a dillad mae ganddo hyn i'w ddweud: 'Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg ichwi.' (Mathew 6:33)

Tua diwedd y bregeth a lefarodd Iesu, yn bennaf wrth ei ddilynwyr agosaf, ond hefyd gydag eraill yn gwrando, fe gawn y rhybudd hwn:

> Nid pawb sy'n dweud wrthyf, 'Arglwydd, Arglwydd', fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Bydd llawer yn dweud wrthyf yn y dydd hwnnw, 'Arglwydd, Arglwydd, oni fuom yn proffwydo yn dy enw di, ac yn dy enw di

Teyrnas nefoedd fel dod o hyd i drysor yn y cae (Lumo Project).

> yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn dy enw di yn cyflawni gwyrthiau lawer? Ac yna dywedaf wrthynt yn eu hwynebau, 'Nid adnabûm erioed mohonoch; ewch oddi wrthyf, chwi ddrwg ddrwgweithredwyr.' (Mathew 7:21–3)

Yn yr hanes am y canwriad yn ceisio iachâd i'w was cawn Iesu'n rhyfeddu at ffydd y canwriad ac yn dweud hyn:

> Yn wir, rwy'n dweud wrthych, ni chefais gan neb yn Israel ffydd mor fawr. Rwy'n dweud wrthych y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin a chymryd eu lle yn y wledd gydag Abraham ac Isaac a Jacob yn nheyrnas nefoedd. Ond caiff plant y deyrnas eu bwrw allan i'r tywyllwch eithaf: bydd yno wylo a rhincian dannedd. (Mathew 8:11–12)

Mae Mathew yn ailadrodd geiriau sy'n cadarnhau pwyslais canolog Iesu wrth bregethu, sef: 'fod Iesu'n mynd o amgylch yr holl drefi a phentrefi, dan ddysgu yn eu synagogau hwy, a phregethu newyddion da y deyrnas, ac iacháu pob afiechyd a phob anhwylderb.' (Mathew 9:35)

Eiddot ti y fuddugoliaeth,
seliwyd hi y trydydd dydd;
Fe orchfygodd Crist bob gelyn
pan ddaeth ef o'i fedd yn rhydd:
Nid oes gelyn mwy all rwystro
ar y llawr nac yn y nef
Ymdaith Brenin y brenhinoedd
i'w deyrnasiad bythol ef.

(Elwyn P. Howells, 1920–99;
Caneuon Ffydd, 256)

Tom Williams
Dinbych

Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Gorffennaf 2022: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 12 o'r gloch bnawn Llun, 4 Ebrill, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe, i drafod cenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y sioe eleni.

Wedi gohirio'r digwyddiad am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir y sioe yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 18 a 21 Gorffennaf, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Darperir te a choffi – dewch â'ch cinio gyda chi a chawn drafod dros amser cinio dydd Llun.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.

Rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd

Wrth i'r gwrthdaro yn Wcráin fynd i mewn i'r bumed wythnos, mae'r ymosodiadau erchyll yn parhau – boed yn Kyiv, y brifddinas, neu mewn dinasoedd eraill. Dinasoedd fel Mariupol, gyda 400 o bobl – yn feddygon a chleifion – yn cael eu dal mewn ysbyty, neu ddinas lan-y-môr Odessa sydd wedi gweld ymosodiadau cyson ac ardal Donbas yn y dwyrain, lle mae'r ymladd ffyrnicaf wedi bod.

Mae nifer y ffoaduriaid sydd yn gadael eu mamwlad yn nesáu at gyfanswm poblogaeth Cymru, ac mae disgwyl i'r ffoaduriaid cyntaf dan fenter 'Homes for Ukraine' gyrraedd yn fuan.

Wrth i mi ysgrifennu, dywed Sergei Lavrov, Gweinidog Tramor Wcráin, fod y trafodaethau heddwch yn fwy addawol.

Mae'r newyddion yn ein tristáu, yn ein sobri ac yn effeithio ar ein pocedi.

Yn ôl yr Arglwydd Iesu, mae hyn yn un o nodweddion y dyddiau diwethaf – yr amser rhwng ei ddyfodiad cyntaf a'i ailddyfodiad i'r byd. Yn Mathew 24.5–14, mae'n rhestru nodweddion a pheryglon y cyfnod hwn. Yn ogystal â rhyfeloedd, mae'n dweud y bydd Meseiau a phroffwydi ffals yn codi ac y daw newyn, daeargrynfâu ac erledigaeth. Oherwydd hyn, bydd cariad llawer yn oeri, bydd rhai yn bradychu ei gilydd, ond y sawl fydd yn dal ati hyd y diwedd gaiff ei achub. Serch hyn i gyd, fe gaiff yr Efengyl ei chyhoeddi drwy'r byd i gyd.

Yng nghanol y fath gyflafan, mae eglwysi Iesu Grist yn dyfalbarhau i estyn lloches ymarferol a gobaith byw'r Efengyl. Yn ôl gwefan y BMS, mae ymateb eglwysi Bedyddiedig Wcráin a'r gwledydd cyfagos fel Gwlad Pŵyl, Moldofa a Hwngari, wedi bod yn ysbrydoledig.

Mae cyfeiriad at Pastor Igor, Is-lywydd Undeb Bedyddwyr Eglwysi Efengylaidd Wcráin, yn dweud bod rhannau o'r ysgrythur, megis 2 Corinthiaid 1.8–10, yn help mawr. Mae Cristnogion Wcráin yn gwneud penderfyniad dyddiol i ymddiried yn Nuw a'i ddarpariaeth ar gyfer ei bobl. Dywedodd, 'Ry'n ni'n dal ati i weithio. Pam? Oherwydd bod Duw yn dal i weithio ynom drwy ei nerth Ef.'

Dyma rai pwyntiau gweddi sydd wedi dod gan Gristnogion Wcráin:

- Y bydd y credinwyr yn cael nerth goruwchnaturiol trwy'r Ysbryd Glân i ddyfalbarhau yn wyneb her sydd yn llawer mwy na'r hyn y gallan nhw ddygymod ag ef yn eu nerth eu hunain.
- Cofiwn am y rhai sy'n gaeth mewn egwlysi wedi eu meddiannu gan y Rwsiaid. Er bod y gelyn o'u hamgylch, y byddant yn profi eu bod wedi eu hamgylchu â chariad a gofal yr Arglwydd.
- Gweddïwn am heddwch (Salm 46.9) a diogelwch i'r rhai sydd yn ffoi.
- Y bydd yr eglwysi'n gallu gweinidogaethu i bawb, y caiff yr arweinwyr ddoethineb ac arweiniad yr Ysbryd Glân.
- Y caiff yr Arglwydd Dduw ei ogoneddu ym mhopeth.
- Na chaiff y rhai sydd yn aros yn y wlad eu digalonni wrth weld cynifer yn gadael, na theimlo'n gwbl amddifad (Hebreaid 13.5b).

Diolch ein bod yn credu mai'r Arglwydd Iesu Grist sydd yn llywio cwrs hanes ac yn goruwchlywodraethu dros bopeth. Diolch fod popeth wedi ei ddarostwng o dan ei draed ef, sef Pen yr eglwys, er mwyn llwyddiant terfynol ei deyrnas. Diolch y gallwn weddïo dros ddyfodiad ei deyrnas a disgwyl hynny, hyd yn oed mewn cyfnodau erchyll o ryfel neu erledigaeth neu ddioddefaint arall.

Diolch na all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

John Treharne

Llun: Fotoreserg, depositphotos.com

Myfyrdod y Grawys

Cyfres o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Grawys 5

Darllen: Salm 32.6–11

Llun: *Jairo/flickr - pererinion*

Am hynny fe weddïa pob un ffyddlon arnat ti yn nydd cyfyngder, a phan ddaw llifeiriant o ddyfroedd mawr, ni fyddant yn cyrraedd ato ef. Yr wyt ti'n gysgod i mi, cedwi fi rhag cyfyngder; amgylchi fi â chaneuon gwaredigaeth. Sela. Hyfforddaf di a'th ddysgu yn y ffordd a gymeri; fe gadwaf fy ngolwg arnat. Paid â bod fel march neu ful direswm y mae'n rhaid wrth ffrwyn a genfa i'w dofi cyn y dônt atat. Daw poenau lawer i'r drygionus; ond am y sawl sy'n ymddiried yn yr ARGLWYDD. Llawenhewch yn yr ARGLWYDD, a gorfoleddwch, rai cyfiawn; canwch yn uchel, pob un o galon gywir.

1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Pryd cawsoch chi brofiad o gariad diysgog Duw? Sut medrwn ni ddangos i eraill ffyddlondeb a chariad Duw o'r tu mewn i'n bywydau a'n harferion Cristnogol ein hunain?

*Sut mae hanes marwolaeth ac atgyfodiad y Santes Gwenffrewi yn darlunio geiriau'r Salmydd, 'cedwi fi rhag cyfyngder; amgylchi fi â chaneuon gwaredigaeth'?

2 Rhywbeth i adfyfyrio arno

*Yn eich bywyd Cristnogol, o ble'r ydych chi yn derbyn y rhan fwyaf o'ch dysgeidiaeth a'ch cyngor? Ac ym mhwy yr ydych yn ymddiried fwyaf i ddysgu Cristnogion am y ffydd? Petai rhywun yn dod atoch ac eisiau dysgu am y ffydd Gristnogol, beth fyddai gennych chi i'w gynnig?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Gwenffrewi yn treulio amser yn siarad â'i hewythr a'i mentor ysbrydol, Sant Beuno. Ar ôl iddi ymgymryd â'r bywyd crefyddol, mae'n dal i gyfathrebu ag ef, yn anfon eitemau ato ac yn gweddïo drosto. Mae hyn yn awgrymu fod athrawon y ffydd hefyd angen help a chefnogaeth. Sut gallwn ni gefnogi clerigwyr, esgobion, henaduriaid a holl athrawon y ffydd? A beth mae modd iddynt hwy ddysgu gennym ni?

3 Rhywbeth i'w wneud

*Mae'r Salmydd yn tynnu sylw at rym gweddi a ffyddlondeb Duw wrth ymateb i weddi. Y Grawys hwn, dewch o hyd i UN peth y gallech wneud yn eich eglwys fyddai'n helpu pobl i feddwl am rym gweddi. Yn dibynnu ar draddodiad eich eglwys, gallech wneud cardiau gweddi i bobl eu cymryd neu eu rhoi i gymdogion a chyfeillion; gallech annog pobl i oleuo cannwyll, neu fe allech gael plant i baentio cerrig neu dynnu lluniau sy'n dweud, 'Fe wnes i weddïo am/dros …' ar un ochr a llun o'r bwriad ar yr ochr arall. Gellid ymgorffori'r cerrig neu'r lluniau yn nes ymlaen mewn Gardd y Pasg neu arddangosfa.

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae grym gweddi yn glir iawn, nid yn unig pan fo Sant Beuno yn gweddio am ei hadferiad, ond yn ei bywyd wedi hynny mewn urdd grefyddol. Yn eich bywyd eich hun, neu yn eich eglwys, dewch o hyd i UN peth y gallech wneud i ddangos i eraill fwy o rym gweddi, gan gyfeirio'n ôl, efallai, at bwysigrwydd gweddi yn hanes Gwenffrewi. Sut gallech chi wneud mwy i helpu pobl i weddïo yn fwy hyderus ac yn amlach?

4 Treiddio'n Ddyfnach

*Mae'r Salmydd yn gofyn i ni adfyfyrio'n ddyfnach am ein perthynas â Duw a phan fyddwn dan straen ac yn pryderu am yr hyn all ddigwydd, y gallwn ymddiried yn ffyddlondeb Duw. Mae'r adfyfyrio hwn a'r ddealltwriaeth trwy weddi a myfyrio yn arwain yn y pen draw at ymchwydd o fawl llawen. A ydym weithiau yn anghofio offrymu ein mawl llawen i'r Arglwydd a diolch i'r Iesu am bopeth a wnaeth Duw?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae traddodiad fod Beuno Sant wedi eistedd ar graig ger y ffynnon newydd ac addo yn enw Duw "y byddai pwy bynnag a fydd yn y fan honno yn gofyn deirgwaith am rywbeth gan Dduw yn enw'r Santes Gwenffrewi yn derbyn y gras y gofynnwyd amdano petai er lles ei enaid". Yn ein bywydau beunyddiol, pa mor aml y byddwch chi'n talu sylw i'r hyn sydd ei angen 'er lles eich enaid'? O ble cewch chi faeth ysbrydol felly, a phwy allai eich helpu i wybod beth yw'r pethau da hynny?

5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Diolchwn i ti mai ti yw'r Duw nad yw'n ildio fyth;
y gallwn ymddiried yn llwyr ynot.
Diolchwn i ti am y gallwn droi atat ti o hyd yn ein trallod;
a'th fod yn ein cadw fel y ceidw'r iâr ei chywion dan ei haden.
Boed i ni ymddiried yn wastad yn dy gariad diysgog
a dod atat ti mewn llawenydd a mawl. Amen.

Llun: *Emilian Robert Vicol/flickr*

Ffydd a Diwylliant

Pa iws? Pa werth?

Pa iws sydd yna i gelfyddyd pan fo'r byd, yn drosiadol beth bynnag, yn chwalu o'n cwmpas ni?

Pa werth sydd yna i luniau a chaneuon yn wyneb bwledi a bomiau, yn enwedig pan fo'r rheiny yn rhai go iawn?

Digon ychydig, efallai. Ond eto, mae gair a llun wedi glynu yn y meddwl lawn cymaint â'r delweddau erchyll o ddinistr dros yr wythnosau diwethaf.

Dyna i chi'r felltith erchyll boerodd un wraig o Wcráin at filwr o Rwsia: 'Rho'r hadau yma [hadau blodau'r haul, blodyn cenedlaethol Wcráin] yn dy boced fel bod blodau'n tyfu lle bydd dy gorff di'n pydru'.

Dyna i chi ddelwedd. Doedd dim gras na maddeuant yn perthyn iddi, dim ond gobaith y bydd blodau cenedlaethol ei gwlad yn tyfu drachefn ar ôl y rhyfel hwn eto. Ond rhywun ddim ond edmygu dewrder y wraig yn wyneb y milwr a grym ei geiriau wrth edrych i lawr baril gwn.

Ac wedyn, pwy all anghofio'r ferch fach yn cuddio mewn selar ac yn canu 'Let it Go' mewn Wcraneg? Plentyn a chân, a chynulleidfa'n ymgolli am eiliad mewn hen, hen gelfyddyd. Canu i godi calon. Roedd yn rhaid iddi hi wynebu ei chynulleidfa, wynebu ofnau, sgwario'i sgwyddau a chanu. A thrwyddi, roedd ei theulu a'i ffrindiau'n gwneud yr un fath ac yn gwenu drwy eu dagrau am ychydig.

A dyma ddelwedd Iwan Bala o eiriau Pablo Neurada wedyn: 'Rydyn ni angen eistedd ar ymyl ffynnon tywyllwch a physgota'n amyneddgar am y golau a ddisgynnodd'.

Ffynnon: lle mae bywyd bob amser yn chwilio am gynhaliaeth. Ond mae pob ffynnon ddofn yn dywyll. Mae'n amhosibl gweld y gobaith ar ei gwaelod hi. Mae'n rhaid gollwng pwced, sy'n llawn dim ond gobaith, a physgota am ddŵr a gweithio'n galed i'w chodi. Ac os yw'n llawn, mae'n rhaid gweithio hyd yn oed yn galetach. Go brin y byddwch chi'n gwybod canlyniad y broses nes y bydd y bwced yn ôl yng ngolau dydd.

Dyna ddyfnder y geiriau. Mae'r ddelwedd yn mynd â ni gam ymhellach eto. Person bychan bach wrth droed taflegryn o fynydd, yn pysgota yn y nos gyda gwialen fechan mewn ffynnon enfawr. Mae'r ffynnon ar ffurf crwban – delwedd oesol o'r creu – ac ynddo mae'r Llwybr Llaethog yn ei gyfanrwydd, wedi disgyn



Delwedd gyda chaniatâd Iwan Bala

o'r awyr ac yn troelli yn y tywyllwch islaw. Ac un person bychan yn pysgota'n dragwyddol.

A dyna ein cyfrifoldeb ninnau: pysgota am olau mewn pwll o dywyllwch.

Dwi ddim yn credu bod drwg yn bod er mwyn rhoi lle i ddaioni dyfu. Ond eto, mae'n rhaid chwilio'n amyneddgar am gariad a gobaith yn wyneb milwyr a'u harweinwyr fel ei gilydd. A phan ddaw'r ffoaduriaid i'n plith ni, fe ddôn nhw â'u caneuon a'u cerddi i'n cyfoethogi ni. Fyddan nhw ddim eisiau bod yma. Gobeithio y cawn nhw fynd adref. Ond efallai y byddan nhw yma am genedlaethau ac y bydd eu plant nhw a'n plant ninnau'n rhannu gwialen wrth bysgota am eu goleuni hwythau.

Felly, byddwn yn amyneddgar ac yn barod i ddal y sêr sy'n syrthio.

Arwel Rocet Jones

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 3 Ebrill, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ni cheir rhaglen am 7:30yh yr wythnos hon oherwydd rownd derfynol *Côr Cymru*. Bydd y rhaglen nesaf yn cael ei darlledu ar Ebrill 10fed ac yn nodi Sul y Blodau. Mi fydd Nia yn Nhyddewi yn cwrdd â'r cyn Esgob, y Gwir Barchedig Wyn Evans, a chawn glywed cyfweliad Cymraeg cyntaf y Parch Kate Bottley, un o gyflwynwyr y rhaglen *Songs of Praise*.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 3 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp

Mae R. Alun Evans yn parhau â'i gyfres ar amrywiol themâu. Ffyddlondeb yw thema'r emynau yn rhaglen yr wythnos hon.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 3 Ebrill, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Delyth Wilson, Bro Gwendraeth.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Cyhoeddi mawl

Emyn 321 ‘Iesu, nid oes terfyn arnat’

Darllen Eseia 43:16–21

Gweddi

Arglwydd Dduw, drwy dy ymyrraeth rasol, achubwyd pobl i ti dy hun. Addewaist, i bobl oedd â’u hysbryd dan warchae, y byddet yn ‘gwneud peth newydd’. Rhyddha ninnau, drwy rym dy Ysbryd Glân, i fod yn ein dydd yn ‘bobl a luniais i mi fy hun iddynt fynegi fy nghlod’. Datguddia i ni o’r newydd ryfeddod gwrthrych ein mawl, a dangos i ni ‘olud Crist yn fodd i fyw’. Amen.

Darllen Salm 126 neu ganu Salmau Cân Newydd https://www.bible.com/bible/1364/PSA.126.SCN

Gan bencampwyr mewn unrhyw faes y mae’r hawl i’r clod. Er i eraill weithredu i’w chynorthwyo, yr un a gystadlodd yw’r un sy’n derbyn y fedal aur. Er i dechnoleg, dawn a dysg llu o dechnegwyr alluogi’r dasg i gael ei chwblhau, enw Neil Armstrong sy’n cael ei gofio fel y person cyntaf i gerdded ar y lleuad. Cyflawnwr y gamp sy’n derbyn y clod!

* * *

Llawenydd yn yr anialwch

Pan drown at y salm, gwelwn yr egwyddor hon ar waith. Mae’r Duw sy’n adfer yn deilwng o’n mawl.

Tawodd llawenydd a ‘chwerthin’ yn ein cynulleidfaoedd wrth i’r salwch hyd farwolaeth afael ynom. I’r byd o’n hamgylch, pobl druenus yw pobl yr Arglwydd, pobl sy’n dal gafael mewn arferion diystyr. Teimlwn ninnau fod cymaint o’n crefydda cyhoeddus yn ‘Negef’ o anialwch; diffrwyth yw’r had prin sy’n cael ei wasgaru gennym, a hyd yn oed pan ganwn emynau o fawl gorfoleddus, nid hyder a glywir yn ein llef ond tristwch trwm.

Deallodd y Salmydd nad oedd ganddo mo’r ddawn, na’r gallu, na’r nerth i orchfygu ei amgylchiadau. Gwyddai mai gwaith gras yr Arglwydd ei hun yw ‘adfer llwyddiant’ ei bobl. Yr argyhoeddiad gwaelodol hwn a’i gyrrodd i blygu gerbron yr Arglwydd gan ddeisyf arno i ‘adfer ein llwyddiant’.

O na fedrem ninnau fel cynulleidfaoedd ddysgu’r wers a cheisio’r Arglwydd, yr hwn a weithredodd, ac a weithreda eto, o blaid ei bobl. Ac o na welem y dydd yn fuan pan fyddai ein genau’n llawn o chwerthin dwyfol, a ffrydiau’n llifo i’n bywhau yn Negef ysbrydol Cymru. O na welem hadau gair yr Arglwydd yn egino ac yn ffrwytho, a llawenydd yn byrlymu wrth i ni fedi cynhaeaf toreithiog o ras Duw, trwy addewid a gallu Duw.

Gweddi

Arglwydd, caniatâ i ninnau olwg hyfryd ar wedd dywysog bywyd fydd yn deffro ynom drachefn ryfeddod byrlymus mawl. Tywallta arnom ffrydiau yn yr anialwch fydd yn peri i ni gyhoeddi, ‘Yn wir, gwnaeth yr ARGLWYDD bethau mawr i ni, a bu i ninnau lawenhau.’

Emyn 366 ‘O na chawn i’

Darlleniad Ioan 12:1–8

Roedd Gŵyl y Pasg ar y gorwel. Ac wrth i’r haul fachlud ar Sabath daearol olaf Iesu, cyfarfu disgyblion Iesu a’u cyfeillion dros swper. Roedd pawb a eisteddodd o amgylch y bwrdd y noson honno’n ymwybodol o’r tensiwn oedd ar gerdded. Onid oedd y ‘Sefydliad’ gwleidyddol a chrefyddol yn cynllwynio i ddifa Iesu a Lasarus?

Defod a chariad

Ni wyddai’r disgyblion ar y pryd y byddai Iesu drannoeth yn marchogaeth i mewn i’r ddinas ar ebol asyn, i’w groesawu fel yr un a ddaeth yn enw’r Arglwydd. Ni ddeallasant fod awr dioddefaint ‘oen Duw sy’n tynnu ymaith bechodau’r byd’ ar fin gael ei chwblhau.

Eglurodd Iesu i’w ddisgyblion fod yr hyn a wnaeth Mair yn ‘cadw’r ddefod ar gyfer dydd fy nghladdedigaeth’. Roedd yn rhagflas o’r hyn a ddigwyddai o fewn yr wythnos.

Cariad eithafol

Byddai’n bosib, ar y darlleniad mwyaf arwynebol o’r adnodau, tybio bod geiriau Iesu’n dibrisio gofal neu gonsýrn am dlodion y byd. Prin y gallwn gredu y medrai Iesu wadu’r cyfrifoldeb hwnnw pan gofiwn mor chwyldroadol a heriol oedd ei ddysgeidiaeth (e.e. yn nameg y Defaid a’r Geifr, Mathew 25:31 ymlaen).

Cywiro cam-ymateb y rhai a ymgasglodd y noson honno i weithred ryfeddol Mair a wnaeth Iesu. Jwdas, y lleidr a’r bradwr, fynegodd deimlad pawb oedd yn yr ystafell. Gwerth ffortiwn o ennaint yn cael ei ‘wastraffu’ fel hyn? A Mair? Pwy welodd unrhyw un yn gweithredu mewn ffordd mor eithafol, mewn dull oedd yn torri pob confensiwn cymdeithasol? Iro traed, golchi â’i dagrau, sychu â’i gwallt? Pwy glywodd am y fath beth?

Y gwir yw mai ymateb ‘eithafol’ i gariad anfeidrol ei faint a wnaeth Mair. Pa fynegiant arall fyddai’n egluro i’r byd gymaint oedd ei chariad tuag at yr Arglwydd Iesu Grist?

Hyd heddiw, ofna cynulleidfaoedd cysglyd neu lugoer rym emosiwn y profiad o ras Duw. Yn wir, i lawer, achos embaras yw cariad ‘eithafol’ ac emosiynol disgyblion Iesu ym mhob oes. (Gweler ymdriniaeth Williams, Pantycelyn, o’r pwnc yn *Llythyr Martha Philopur*.)

Symbyliad Cariad Mair

Ystyriwn ymhellach amgylchiadau’r noson. Dacw Martha brysur yn gweini ar y llu o ymwelwyr a Mair wedi dewis y rhan orau o gael bod yng nghwmni Iesu. Wrth y bwrdd, yn ymyl Iesu, eisteddodd ei brawd, Lasarus. Lasarus, yr un y bu’n gweini arno yn ystod ei salwch, yn galaru amdano wrth iddo gael ei drechu gan angau. A dacw Iesu, ffrind Lasarus, cyfaill i’r teulu cyfan mewn gwirionedd, yn eistedd yn eu cwmni. A ddiflannodd ei siom fod Iesu’n ‘rhy hwyr’ i achub eu brawd? Cofiai beth ddywedodd Iesu wrthi, ‘Myfi yw’r Atgyfodiad a’r bywyd’. Nid rhywbeth yn y byd a ddaw oedd yr atgyfodiad bellach. Yn ôl Iesu, roedd gobaith ‘yfory’ wedi camu i fyd amser, a gobaith yfory wedi ei bersonoli yn Iesu. Ac roedd Mair yn sicr o gofio sut yr ymatebodd pan ofynnodd Iesu iddi a oedd yn credu ei addewid. ‘“Ydwyf, Arglwydd,” atebodd hithau, “yr wyf fi’n credu mai tydi yw’r Meseia, Mab Duw, yr Un sy’n dod i’r byd.”’

Prin y deallai ar y pryd ystyr ei geiriau ei hun. Ond yno, y noson honno, fe’i gorchfygwyd gan ei chariad at Iesu. A thywalltwyd ennaint drudfawr arno, a thywalltodd ei dagrau gariad oedd y tu hwnt i eiriau.

Do, gwnaeth yr Arglwydd bethau rhyfeddol ym mywyd Mair, a thrwy ei ras cyflawnwyd yn ei bywyd amcan a phwrpas bywyd pob un byw, sef ‘iddynt fynegi fy nghlod’.

Gweddi

Arglwydd, rydym wedi syrffedu ‘ar ryw rith / o grefydd, heb ei grym’. Caniatâ i ninnau lwyr ‘adnabod Iesu Grist / yn fywyd annwyl im’. Arglwydd, cyffeswn ein bod yn ofni cyfarfyddiad o’r fath. Ond dyhëwn yr un pryd am gael gweld ein hofnau a’n hamheuon yn cael eu trechu gan dy wedd. Amen.

Emyn 330 ‘Fy Nuw, fy Nhad, fy Iesu’

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru